# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 26 Mawrth 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor
5 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Llyfrau Saesneg a Chymraeg

**C8 Brian Gibbons:** A all y Gweinidog roi manylion nifer y llyfrau Saesneg a Chymraeg a gyhoeddwyd â chymorth cyrff a noddir gan y Cynulliad yn ystod y tair blynedd diwethaf? (OAQ23634)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Yn ystod y tair blynedd diwethaf, cyhoeddwyd 982 o lyfrau gyda chymorth gan gyrff a noddir gan y Cynulliad o fewn fy mhortfolio. O'r cyfanswm hwn, yr oedd 742 yn llyfrau Cymraeg, 221 yn llyfrau Saesneg, a 37 yn llyfrau dwyieithog. Cyhoeddwyd y rhan fwyaf o'r llyfrau hyn gyda chymorth naill ai Cyngor Llyfrau Cymru (642) neu Gyngor Celfyddydau Cymru (258).

### Annog Menywod i Chwarae Rhan ym Myd y Celfyddydau

**C9 Christine Chapman:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i annog menywod i chwarae rhan ym myd y celfyddydau yng Nghymru? (OAQ23632)

**Jenny Randerson:** Credaf yn bendant ym manteision y celfyddydau i bawb, ac mae fy strategaeth ddiwylliant, 'Creative Future: Cymru Greadigol', yn tanlinellu hyn. Yr oeddwn wrth fy modd i gefnogi ac agor dathliadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar Ddydd Sadwrn, 8 Mawrth, yn yr Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd. Mae cyllid gan Lywodraeth y Cynulliad i Gyngor Celfyddydau Cymru wedi cefnogi Permanent Waves i ddarparu gweithgareddau celfyddydol cyfranogiadol i fenywod yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru. Mae Permanent Waves hefyd wedi cael ei ariannu i weithredu fel corff strategol i fenywod yn y celfyddydau yng Nghymru.

### Annog Cerflunwaith yng Nghymru

**C10 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y mesurau y mae'n eu cymryd i annog cerflunwaith yng Nghymru? (OAQ23624)

**Jenny Randerson:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi Cywaith Cymru/Artworks Wales ac Ymddiriedolaeth Gelfyddydau Bae Caerdydd: Yr Asiantaeth Gelf ac Adfywio drwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r ddau sefydliad yn comisiynu a hyrwyddo cerflunio. Mae'r cyngor hefyd yn cefnogi cerflunwyr drwy ei raglen artistiaid preswyl. Mae'r cyngor celfyddydau yn cynnal adolygiad o gelf gyhoeddus ar hyn o bryd.

### Cymryd Rhan Mewn Chwaraeon

**C11 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y cynnydd o ran annog trigolion rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru i gymryd rhan mewn chwaraeon? (OAQ23664)

**Jenny Randerson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ymrwymo i ddarparu cyfleoedd chwaraeon i bawb. Bwriad y fenter cynhwysiant cymdeithasol mewn chwaraeon yw hybu cyfranogiad a gwella mynediad i chwaraeon i'r rheini sy'n byw yng nghymunedau difreintiedig Cymru.

### Newidiadau i'r Amodau Grant (Cyngor Celfyddydau Cymru)

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y newidiadau i'r amodau grant a ddosbarthwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru? (OAQ23629)

**Jenny Randerson:** Un o'r camau gweithredu ym mhroses ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru oedd y dylid symleiddio ac integreiddio ffrydiau cyllid y loteri a Llywodraeth y Cynulliad. Golyga'r newidiadau i'r cynlluniau ariannu hyn i amodau grant safonol newydd gael eu cyflwyno. Yr oedd mwyafrif cwsmeriaid refeniw y cyngor celfyddydau yn gyfarwydd ag amodau'r grantiau blaenorol, sydd yn awr wedi eu cyfuno am y tro cyntaf. Yr wyf yn ymwybodol bod pryderon ynglŷn â rhai cymalau yn yr amodau a gyfunwyd sy'n ymwneud â'r defnydd y gall sefydliadau ei wneud o weddillion/enillion a chronfeydd wrth gefn. Deallaf fod y cyngor celfyddydau yn cyhoeddi canllawiau ar weithrediad amodau'r grant i'r sefydliadau. Bydd hefyd, yng ngoleuni sylwadau a wnaed, yn symleiddio geiriad y cymalau perthnasol.

*Tynnwyd cwestiwn 13 (OAQ23619) yn ôl.*

### Pwll Nofio 50 metr i Gaerdydd

**C14 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal â Chyngor Chwaraeon Cymru ynghylch darparu pwll nofio 50 metr yng Nghaerdydd? (OAQ23622)

**Jenny Randerson:** O dro i dro, bûm yn trafod â Chyngor Chwaraeon Cymru ynghylch y ddarpariaeth gyffredinol o bwll nofio 50 medr yng Nghaerdydd.

### Proffil Chwaraeon i Fenywod yng Nghymru

**C15 Val Lloyd:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i godi proffil chwaraeon i fenywod yng Nghymru? (OAQ23626)

**Jenny Randerson:** Ein nod, ar y cyd â Chyngor Chwaraeon Cymru ac wedi'i gefnogi gan gynlluniau fel Merched yn Gyntaf, yw haneru'r bwlch rhwng cyfranogaeth dynion a menywod ym myd chwaraeon erbyn 2005. Cefnogir yr athletwyr benywaidd mwyaf talentog gan gynllun Elite Cymru y cyngor chwaraeon. Mae niferoedd cynyddol o athletwyr benywaidd yn nodedig ar lwyfan y byd.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

### Polisïau Datblygu Gwledig (Manteision i Abertawe)

**C6 Peter Black:** Pa fanteision y mae Abertawe wedi'u profi o ganlyniad i bolisïau datblygu gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru? (OAQ23610)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor (Michael German):** Y mae'r Llywodraeth bartneriaeth wedi cyflwyno ystod eang o fesurau i helpu hyrwyddo

cymunedau gwledig cynaliadwy. Maent yn cynnwys cymorth ar gyfer amaethyddiaeth a phrosesu bwyd a mesurau i helpu ehangu'r economi gwledig ac i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad. Mae holl gymorth y Cynulliad ar gyfer amaethyddiaeth a phrosesu bwyd, gan gynnwys Cyswllt Ffermio, ar gael i ffermwyr, eu teuluoedd a busnesau eraill yn Abertawe. Cefnogir y mesurau hyn gan gynllun datblygu gwledig Cymru ac Amcan 1. Yn ogystal, mae Abertawe ar ei hennill oherwydd mesurau adfywio cymunedau Amcan 1.

**Taliadau'r Cynllun Ffermio Organig**

**C7 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt taliadau'r cynllun ffermio organig? (OAQ23593)

**Michael German:** Gwnaf. Cafodd taliadau'r cynllun ffermio organig eu hailgychwyn ddoe—25 Mawrth. Disgwyliaf y bydd yr holl daliadau sydd wedi cronni ers cau'r cyfrifiadur fis Hydref diwethaf wedi'u clirio cyn hir.

**Ardaloedd Amgylcheddol Arbennig (Taliadau Hwyr)**

**C8 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar daliadau hwyr ar gyfer ardaloedd amgylcheddol arbennig? (OAQ23658) [W]

**Michael German:** Gwnaf. Cafodd y taliadau ardal amgylcheddol arbennig eu hailgychwyn ar 6 Mawrth a, hyd yma, mae £6.79 miliwn wedi'i dalu. Y gobaith yw clirio'r holl daliadau sydd wedi cronni ers mis Hydref erbyn diwedd y mis.

**Stoc Marw**

**C9 Mick Bates:** Pa drafodaethau y mae'r Gweiniog wedi'u cynnal gyda'r diwydiant rendro i gynllunio'r capasiti ar gyfer ymdrin â stoc marw yng Nghymru? (OAQ23597)

**Michael German:** Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi'n gryf unrhyw ymdrechion i ddatblygu trefniadau ymarferol i gasglu a gwaredu stoc marw ar gyfer y DU gyfan pan ddaw rheoliad sgîl-gynhyrchion anifeiliaid yr UE i rym. Yn unol â'r egwyddor mai'r llygrwr sydd i dalu, a'n polisïau ni ein hunain ar gyfer cefn gwlad cynaliadwy, gorffwysa mwyafrif y cyfrifoldeb ar gyfer ymdrin â stoc marw gyda'r diwydiant ei hun. Ers Ebrill 2002, bu Llywodraeth y DU yn cynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid y diwydiannau da byw a gwaredu gyda'r bwriad o ddatblygu cynllun o'r fath. Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru â phersonél allweddol diwydiannau da byw a gwaredu Cymru fis diwethaf i drafod y mater hwn ymhellach. Dywedodd cynrychiolwyr y diwydiant gwaredu wrthym nad yw trefniadau effeithiol i gasglu a gwaredu stoc marw Cymru yn dibynnu ar faint y capasiti rendro yng Nghymru.

**Twf Marchnadoedd Ffermwyr**

**C10 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dwf marchnadoedd ffermwyr? (OAQ23608)

**Michael German:** Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae nifer y marchnadau ffermwyr wedi cynyddu'n sylweddol. Mae Cyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru, drwy'r bartneriaeth fwyd-amaeth, yn cefnogi nifer o fentrau drwy Gymru, ac mae pob rhanbarth o Gymru wedi gweld marchnadoedd newydd yn datblygu yn y prif drefi.

**Tyfu Cnydau GM (Deddfwriaeth Newydd)**

**C11 Cynog Dafis:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno deddfwriaeth newydd parthed tyfu cnydau GM? (OAQ23656) [W]

**Michael German:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau o'r fath. Mae'r Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002, a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2002, yn cyflwyno fframwaith rheoleiddio llawer llymach ar ollwng organebau a addaswyd yn enetig i'r amgylchedd na'r trefniadau blaenorol.

**Strategaeth y Diciâu mewn Gwartheg**

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig parthed strategaeth y diciâu mewn gwartheg? (OAQ23655) [W]

**Michael German:** Yr wyf yn cynnal trafodaethau rheolaidd ar faterion yn ymwneud â'r diciâu mewn gwartheg gyda Mrs Beckett a Gweinidogion eraill. Yn ystod y trafodaethau, yr wyf wedi pwysleisio'r angen am adolygiad sylfaenol o'r diciâu, a chyhoeddwyd adolygiad o'r strategaeth diciâu bresennol ar gyfer Prydain yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ar 18 Chwefror.

**Ymgeiswyr am y Grant Menter Fferm**

**C13 Owen John Thomas:** Pa addewid a roddir i ymgeiswyr am y grant menter fferm ynghylch yr amseroedd a gymerir i brosesu ceisiadau? (OAQ23603)

**Michael German:** Penderfynir ar gais o fewn wyth wythnos o'i dderbyn, ar yr amod y darperir pob gwybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys cynllun busnes datblygu fferm wedi'i gwblhau a'i dderbyn, a bod unrhyw lythyrau caniatâd addas ynghlwm wrtho.

**Incwm Ffermydd yng Nghymru**

**C14 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar incwm arian parod ac incwm net ffermydd yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf? (OAQ23652)

**Michael German:** Tynnir y ffigurau a ganlyn o'r arolwg busnes fferm. Cynhelir yr arolwg hwn yn flynyddol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Sefydliad Astudiaethau Gwledig Cymru ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Cyhoeddir y canlyniadau fel arfer ym mis Chwefror bob blwyddyn. Ffigurau cyfartaledd yw'r isod ar gyfer pob fferm laeth a da byw yng Nghymru (wedi'u deillio o sampl o 550 fferm amser llawn).

| | **1997-98** | **1998-99** | **1999-2000** | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03 (rhagolwg)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm net y fferm (£)** | 11,500 | 6,000 | 5,700 | 4,300 | 9,100 | 10,100 |
| **Incwm ariannol (£)** | 22,800 | 21,100 | 20,500 | 16,900 | 24,100 | 25,500 |

Dengys y ffigurau gwymp yn incwm net ffermydd (enillion i'r ffermwr a'i gymar am eu llafur llaw a rheolaethol a'u cyfalaf gan denantiaid) ac incwm ariannol (enillion ariannol i'r sawl a chanddo fudd entrepreneuraidd ym musnes y fferm, gan gynnwys llafur a buddsoddiadau) rhwng 1997-98 a 2000-01. Dengys ffigurau 2001-02 gynnydd yn y ddau ffigur. Rhagwelir parhâd ar y cynnydd hwn yn 2002-03.

**Cynllun Ymddeol ar gyfer Ffermwyr yng Nghymru**

**C15 Elin Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno cynllun ymddeol ar gyfer ffermwyr yng Nghymru? (OAQ23659) [W]

**Michael German:** Nid oes cynlluniau gennyf i gyflwyno cynllun ymddeol i ffermwyr. Byddai costau rhoi'r cynllun ar waith yn uchel iawn—tua £9.3 miliwn y flwyddyn ar gyfer hyd at 10 mlynedd i bob 1,000 o ffermwyr sy'n cymryd rhan. Mae 7,500 o ffermwyr yng Nghymru rhwng 55 a 65 oed a allai

ddangos diddordeb, ac nid wyf o'r farn y byddai hyn yn ddefnydd synhwyrol o adnoddau'r Cynulliad. Credaf y byddai'n well defnyddio'r adnoddau ar gyfer mesurau megis datblygu sgiliau entrepreneuraidd pobl ifanc, a fydd yn helpu datblygu amaethyddiaeth yng Nghymru yn yr hirdymor. Dyna'r rheswm dros glustnodi £1.5 miliwn i'r cynllun entrepreneuriaeth ifanc dros y tair blynedd nesaf.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

### Datblygu Llywodraeth Agored yng Nghymru

**C8 John Griffiths:** Pa strategaeth fydd yn cael ei dilyn i ddatblygu llywodraeth agored ymhellach yng Nghymru? (OAQ23641)

**Y Trefnydd (Carwyn Jones):** Yr ydym wedi ymrwymo i wneud llywodraeth yng Nghymru mor agored â phosibl, ac yr ydym wedi dangos hyn mewn sawl ffordd: Cod Ymarfer y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, gan gynnwys y darpariaethau yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; mabwysiadu cynllun cyhoeddi pellgyrhaeddol; a'n hagwedd newydd tuag at ryddhau'r ffeithiau a'r dadansoddiadau sy'n sail i benderfyniadau Gweinidogion. Byddwn yn monitro effaith y mentrau hyn a'u hestyn, lle bo modd, yn y dyfydol.

### Hiliaeth yng Nghymru

**C9 Peter Rogers:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar y problemau o ran hiliaeth yng Nghymru? (OAQ23642)

**Carwyn Jones:** Gwn y bu digwyddiad hiliol yn ddiweddar yn eich etholaeth. Gallaf eich sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymroi yn llawn i fynd i'r afael â hiliaeth pa le bynnag y bo'n ymddangos yng Nghymru. Yr ydym yn ymdrechu i greu Cymru sy'n cynnal gwerthoedd cyfiawnder, parch a thegwch i bawb.

### Mynediad i'r Cyhoedd i Gyfarfodydd CCNC

**C10 Peter Black:** A yw'r Gweinidog yn hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd i gyfarfodydd cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? (OAQ23647)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais yn y Cyfarfod Llawn i'ch cwestiwn OAQ23646.